

# Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Cyfarfod y Bwrdd 13 Ebrill 2016

---

## Yn bresennol:

Helen White (Cadeirydd)	HW
Bob Smith	BS
Ron Dougan	RD
Claire Russell-Griffiths	CRG
David Roberts	DR
Gayna Jones	GJ
Doug Elliott	DE
Ceri Victory-Rowe	CVR
Ian Williams	IW
Carol Kay	CK
Julie Woollard	JW

## Ymddiheuriadau:

Sarah Laing-Gibbens	SLG
---------------------	-----

---

1. Agorodd Helen White y cyfarfod drwy estyn croeso cynnes i bawb, gan amlinellu rôl y Bwrdd newydd wrth gefnogi'r Sector i symud ymlaen yn wyneb yr heriau a ddaw yn sgil amgylchedd tai sy'n newid ac fwy heriol.

## **EITEM 2 AR YR AGENDA: y ffordd rydym yn rheoleiddio ar hyn o bryd**

2. Bu'r Bwrdd yn trafod y ffordd Gymreig o reoleiddio, yn arbennig y pwyslais ar gyd-reoleiddio ac ymgysylltu rheoleiddiol a'r defnydd o risg i flaenoriaethu a rhoi ffocws i waith y tîm Rheoleiddiol.
  - 2.1 Cytunodd y Bwrdd bod trefn risgiau'r tîm Rheoleiddiol yn darparu dull defnyddiol i roi trosolwg i'r Bwrdd o risg ar draws y sector. Yr hyn oedd yn arbennig o ddiddorol, yn enwedig i sefydliadau risg uwch, oedd y camau sy'n cael eu cymryd gan y tîm Rheoleiddio i helpu'r sefydliadau hynny i leihau risg. At ddibenion y Bwrdd, gofynnwyd am golofn ychwanegol yn darparu gwybodaeth am gamau lliniaru.
  - 2.2 Nododd y Bwrdd y nifer cymharol uchel o sefydliadau sy'n achosi pryder rheoleiddiol ac roedd yn awyddus i sicrhau, wrth ddysgu gwersi o achosion cymhleth, bod y rhesymau am hyn yn cael eu harchwilio. Roedd ansawdd y broses lywodraethu yn thema gyson mewn achosion cymhleth, ac mae angen i elfennau o'r sector ddatblygu dulliau gwell o ymdrin â phroses lywodraethu fodern. Roedd yn bleser gan y Bwrdd nodi bod y tîm Rheoleiddio yn gweithio'n agos gyda Cartrefi Cymunedol Cymru i lywio eu gwaith ar ddatblygu trefn lywodraethu effeithiol.

2.3 Nododd y Bwrdd fod y tîm Rheoleiddio wedi canolbwyntio'n fwy na dim dros y flwyddyn ddiwethaf, ar gyflawni. Roedd hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth ddatblygu a gwella'r dull hwnnw ac wedi caniatáu cynigion realistig i gyhoeddi barn reoleiddiol bob blwyddyn, o leiaf. Fodd bynnag, pwysleisiwyd yr angen i ryddhau adnoddau ar gyfer safbwyntiau mwy strategol.

### **CAM GWEITHREDU: Ychwanegu colofn 'ffactorau lliniaru' at y Papur Trefn Risg**

2.4 Nododd y Bwrdd fod canllawiau ar ddisgwyliadau rheoleiddiol yn cael eu cyhoeddi e.e.ar brofi straen a chofrestri atebolrwydd ac asedau. Caiff y canllawiau eu cysylltu â dogfen Cartrefi Cymunedol Cymru ar y ddau bwnc.

### **ACHOSION CYMHLETH**

2.5 Cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar dri o'r achosion cymhleth presennol. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol, pe bai'r tîm Rheoleiddiol yn cynnal ymarfer cychwynnol ar wersi a ddysgwyd a dod â'r elfennau / gwersi pwysig at y Bwrdd i'w trafod.

2.6 Awgrymwyd y byddai datblygu themâu dysgu hefyd yn ddefnyddiol.

2.7 Roedd y Bwrdd yn awyddus iawn i sicrhau y dylid rhannu'r gwersi a ddysgwyd gyda'r sector i sicrhau gwelliant. Trafodwyd yr anawsterau o wneud hynny gyda materion cyfrinachol yng Nghymru. Roedd y Bwrdd yn teimlo y dylai pawb dan sylw gael eu hannog i rannu gwersi allweddol yn agored er budd y sector ehangach.

2.8 Dywedodd y tîm rheoleiddiol eu bod wedi gwneud rhywfaint o waith cychwynnol ar "arwyddion rhybuddio" problemau. Dywedodd y Bwrdd y byddai ganddo ddiddordeb clywed mwy am hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

2.9 Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gael cadeiryddion o ansawdd. Roedd y Bwrdd yn teimlo bod adeiladu rhwydwaith cryf o Gadeiryddion yn hanfodol, a nodwyd gwaith parhaus Cartrefi Cymunedol Cymru yn y maes hwn.

2.10 Trafodwyd hefyd rôl allweddol benthycwyr a pha mor bwysig yw meithrin perthynas gref gyda benthycwyr fel sail gadarn pan fydd pethau'n mynd o'i le.

2.11 Pwysleisiwyd pa mor bwysig i'r rheolydd yw cael rhybuddion clir ac ymateb yn gadarn iddynt. Roedd y Bwrdd yn glir ei bod yn hanfodol i achosion cymhleth gael eu trafod mewn modd agored a gonest. Bydd y Bwrdd yn defnyddio dull cadarn, ond ni fydd diwylliant o fwrw bai. Mae rôl bwysig, glir i'r Bwrdd, o ystyried yr amrywiaeth o faterion a wynebir.

### **CAM GWEITHREDU: Gwaith "arwyddion rhybuddio" i gael ei rannu gyda'r Bwrdd**

### **EITEM 3 AR YR AGENDA: Cyflwyniad i'r Bwrdd ar faterion mawr yn sector Tai Cymru**

3. Cyflwynodd RS amlinelliad defnyddiol iawn o'r prif faterion yn y maes tai ar hyn o bryd.

3.1 Bu'r Bwrdd yn trafod nifer o faterion pwysig a godwyd yn y cyflwyniad a'r goblygiadau ar y sector. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar gwestiynau am werth am arian a'r gwaith sy'n ychwanegu gwerth at y sector.

3.2 Cytunwyd y byddai cael ffocws tebyg yn flynyddol, yn ddefnyddiol iawn.

**CAM GWEITHREDU : dosbarthu Ansawdd Tai Cymru, gan ei fod yn ffynhonnell dda o wybodaeth am Gymru, a lledaenu gohebiaeth o fewn y sector.**

**EITEM 5 AR YR AGENDA : Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Dad-Reoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai**

5. Nododd y Bwrdd y byddai'r SYG yn cynnal adolygiad dosbarthu ar gyfer y gwledydd datganoledig yn yr Hydref.
- 5.1 Dyma fater pwysig iawn i'r sector a bydd y Tîm Rheoleiddio yn gweithio'n ddiwyd i ddeall goblygiadau'r adolygiad ac ymateb iddynt.
- 5.2 Byddai goblygiadau ail-ddosbarthu yn sylweddol wrth i fenthyciadau hanesyddol gael eu symud i'r sector cyhoeddus a'r posibilrwydd bod benthyca parhaus yn amodol ar reoliadau'r sector cyhoeddus.
- 5.3 Ar hyn o bryd, cynigir cyflwyno deddfwriaeth gynnar i gael gwared ar y rheoliadau sy'n debygol o arwain at ail-ddosbarthu. Ar hyn o bryd, ymddengys bod y rheoliadau perthnasol, fel yn Lloegr, yn ymwneud â gwahanol fathau ganiatâd a'r pŵer i benodi aelodau/rheolwyr.
- 5.4 Mae Lloegr wedi cael ei ail-ddosbarthu. Bwriad moratoriwm o ddwy flynedd a gytnwyd gan y Trysorlys yw rhoi amser i ddeddfwriaeth angenrheidiol wyrdroi'r dosbarthiad cyn i'r goblygiadau a ddaw yn sgil y sector yn bod yn rhan o'r sector cyhoeddus, ddod i rym.
- 5.5 Mae posibilrwydd y byddai'r berthynas agos rhwng y Llywodraeth a'r rheoleiddiwr yng Nghymru, pan mai Gweinidogion yw'r rheoleiddwyr, yn broblem, ac yn gofyn am wneud gwaith i ddatblygu rheoleiddiwr annibynnol.
- 5.6 Nododd y Bwrdd y byddai'n debygol, o gael gwared ar y rheoliadau, y byddai pwerau'r rheoleiddiwr yn lleihau. Bu'r Bwrdd yn ystyried goblygiadau hyn ac opsiynau i gyfnewid y pŵer 'caled' hyn am bwerau 'meddal', gan gynnwys yr opsiwn i gyflwyno dull sgorio.
- 5.7 Gan ystyried pwysigrwydd y materion, gofynnodd y Bwrdd i gyfarfod arbennig gael ei drefnu ar gyfer diwedd Mai/dechrau Mehefin i drafod yr opsiynau ymhellach, i gynnwys papur ar opsiynau ar gyfer y fframwaith sgorio.
- 5.8 Nodwyd y byddai unrhyw fframwaith sgorio yn gofyn am ymgynghori â'r sector. Yn yr un modd, bydd ymgynghoriad llawn yn llunio rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth ar y mater o ail-ddosbarthu.

**CAM GWEITHREDU: Trefnu cyfarfod dros dro ar ôl 9 Mai a chyn 27 Mehefin**

- 5.9 Holodd DE beth yw'r diffiniad o reoleiddiwr modern? Angen cael capasiti a gallu; profi straen a gallu'r Rheoleiddiwr i diffinio hyn ac ymdrin ag unrhyw achosion cymhleth.

## **EITEM 6 AR YR AGENDA: Gwerth am Arian**

6. Nododd y Bwrdd y cynigion gan y Grŵp Cynghori ar Reoleiddio i gynnal adolygiad thematig o werth am arian. Cytunwyd y byddai hyn yn fater allweddol i'r sector.
- 6.1 Pwysleisiwyd y ffaith bod angen i'r astudiaeth ystyried gwerth cymdeithasol y sector a pha mor bwysig oedd mewnbwn effeithiol gan denantiaid i'r astudiaeth wrth gynnwys y Panel Cynghori Tenantiaid.
- 6.2 Cymeradwyodd y Bwrdd y dull a gynigiwyd gan y Grŵp Cynghori ar Reoleiddio a nodwyd y dylai diweddariad ar gynnydd fod yn rhan o bob agenda Bwrdd Rheoleiddiol Cymru.
- 6.3 Gwirfoddolodd Gayna Jones a Bob Smith i ymuno â grŵp llywio'r prosiect.

**CAM GWITHREDU: cael eitem ar yr Agenda ym mhob cyfarfod i roi'r diweddaraf am Werth am Arian.**

**CAM GWEITHREDU: Mynegodd GJ ac RS ddiddordeb mewn cael eu cynnwys yn y grŵp llywio**

## **CAM GWEITHREDU 7: Sut rydym yn mynd i weithio fel Bwrdd/Cyfarfodydd yn y Dyfodol**

7. Y Grŵp Cynghori ar Reoleiddio bellach yw'r cyswllt allweddol i gyfathrebu â'r sector.
- 7.1 Ystyried ffyrdd gwahanol o weithio, yn hytrach na wyneb yn wyneb. Ystyried lleoliadau gwahanol ac edrych beth y mae Awdurdodau Tai yn ei gynnig, cael 2 gyfarfod yng Nghaerdydd a 2 yn rhywle arall?
- 7.2 Ystyried hefyd cynnal cyfarfod yn rhannol gyda Chyngor Cartrefi Cymunedol Cymru ac un cyfarfod yn rhannol gyda'r Panel Cynghori Tenantiaid/Y Grŵp Cynghori ar Reoleiddio.
- 7.3 Cael rhestr o arferion da i'w rhannu. Ymweld ag enghreifftiau o arfer da?
- 7.4 Ystyried gweithle digidol ar gyfer gwaith nad yw'n gyfrinachol hy Linked In, Yammer, Twitter
- 7.5 Y Panel Cynghori Tenantiaid i aros yr un fath am ychydig o fisoedd, ond mae disgwyl iddo gael ei adnewyddu, gyda Keith Edwards i hwyluso. Nodwyd y gwaith da a wnaed gan Denantiaid Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**Cyfarfod nesaf Bwrdd Rheoleiddiol Cymru - 27 Mehefin 2016**